

Roedd **Phoebe** wedi penderfynu bod oedolion y byd yn gwrthod gwrando ar blant.

Eu bod yn gwrthod gwrando pan fyddai **Phoebe** eisiau bwyta **losin** yn lle ffrwythau.

Eu bod yn gwrthod gwrando pan fyddai **Phoebe** eisiau chwarae **cuddio** yn lle cysgu.

Eu bod yn gwrthod gwrando pan fyddai **Phoebe** eisiau **siarad** yn y sinema yn lle bod yn dawel.

A'u bod yn gwrthod gwrando pan roedd **Phoebe** yn sôn am broblem **blastig** y byd.



Roedd **plastig** ym mhobman ac yn difetha'r byd.



Roedd **plastig** yn y **moredd**.

Roedd **plastig** ar hyd y **tiroedd**.

Ond yn fwy na dim, roedd **plastig** yn gorchuddio bron pob darn o fwyd ym mhob archfarchnad. Ac roedd **Phoebe** wedi cael llond bol.

Felly, roedd **Phoebe** a'i ffrindiau wedi penderfynu cwrdd yn nhŷ bach twt **Phoebe** ar waelod ei gardd gefn er mwyn creu cynllun.

Roedd tŷ bach twt **Phoebe** yn **borffor**, gyda ffenestri bach **coch** a drws **brown**.



Tu mewn i'r tŷ bach twt roedd cegin fach a bwrdd gyda chadeiriau o'i gwmpas. I fyny'r grisiau roedd clustogau patrymog a llyfrau o bob lliw a llun i'w darllen.

Heddiw roedd **Phoebe**, **Nathan**, **Nel** a **Joseff** yn eistedd o gwmpas y bwrdd. Ynghanol y bwrdd roedd papur a phensiliau lliw.

Roedd hi'n amser cynllwyno.

"Beth am ysgrifennu llythyr at reolwr y wlad?" cynigodd **Nathan**.

"Na, ni angen gwneud rhywbeth mwy na hwnna," oedd ateb **Phoebe**.

"Beth am ddweud wrth bawb yn yr ysgol i beidio defnyddio **plastig**?" holodd **Nel**.

"Na, ni angen gwneud rhywbeth mwy na hwnna," oedd ateb **Phoebe**.

"Beth am fynd i'r archfarchnad a thynnu'r holl **plastig** i ffwrdd o'r bwyd?" cynigodd **Joseff**.

**"Syniad gwych!"** oedd ateb **Phoebe**.

Ac i ffwrdd â'r pedwar i'r archfarchnad leol.

Wrth gerdded i mewn i'r archfarchnad crynodd y pedwar wrth weld yr oedolion i gyd yn gweithio yno.



Daliodd y pedwar yn dynn yn nwylo ei gilydd a cherdded yn hyderus i'r man lle'r oedd y bwyd i gyd wedi'u gorchuddio â **phlastig**.

Un,  
dau,  
tri...

ac i ffwrdd â nhw i greu llanast.

Aeth **Phoebe** at y  
**bananas** gan rwygo'r  
**plastig** gyda'i holl  
nerth.

Aeth **Nathan** at y  
**tomatos** gan rwygo'r  
**plastig** gyda'i holl  
nerth.



Aeth **Nel** at y **pupur**  
gan rwygo'r **plastig**  
gyda'i holl nerth.

Ac yn olaf, aeth **Joseff**  
at yr **afalau** gan  
rwygo'r **plastig** gyda'i  
holl nerth.

Stopiodd yr oedolion yn stond gan syllu'n gegrwth ar yr holl **blastig** a oedd yn hedfan i bob man.

Dechreuodd yr oedolion redeg ar eu hôl. Ond roedd **Phoebe**, **Nathan**, **Nel** a **Joseff** llawer rhy gyflym iddynt eu dal.

Rhedodd **Phoebe** rhwng coesau un tuag at yr eil gyda hufen iâ.

Neidiodd **Nathan** heibio dau oedolyn tuag at yr eil gyda llyfrau.

Rholiodd **Nel** rhwng coesau un arall tuag at yr eil gyda dillad.

A brasgamodd **Joseff** o dan freichiau un tuag at yr eil gyda pizza.

Roedd y pedwar ohonynt yn rhydd i greu mwy o lanast ... a dyna beth ddigwyddodd.



Sylwodd y pedwar ar y **plastig** a oedd yn dal i fod o'u cwmpas ac felly dechreuon nhw daflu mwy a mwy o **blastig** o gwmpas y lle nes iddynt greu pentwr anferth o **blastig** a oedd yn dalach na'r un ohonynt.

Ond yna, daeth rheolwyr yr archfarchnad atynt.

“Beth allwn ni ei wneud er mwyn stopio chi rhag gwneud mwy o lanast?”  
holodd un o’r rheolwyr.

**“Stopiwch ddefnyddio plastig!”** bloeddiodd y pedwar gyda’i gilydd.

“Iawn” oedd ateb syml y rheolwyr.

Er mwyn dangos roedd pawb yn gytûn poerodd pawb ar gleidr eu llaw ac  
ysgwyd dwylo.

Wythnos yn ddiweddarach, aeth **Phoebe**, **Nathan**, **Nel** a **Joseff** yn  
ôl i’r archfarchnad i weld bod pob darn o **blastig** wedi mynd.

Rhedodd y pedwar o gwmpas yr archfarchnad yn hapus i gyd heb wneud  
yr un llanast y tro yma!

Gan Rhiannon Lloyd Williams a Sioned Medi Evans